



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Canllawiau

Canllawiau ar gyfer y Cyhoedd ar
Symud Rhwystrau o Hawliau Tramwy

Medi 2016

Ymwadiad

Nid yw'r nodyn cyfarwyddyd hwn yn rhan o unrhyw Ddeddf neu Reoliadau ac nid oes ganddo unrhyw effaith gyfreithiol. Mae'n darparu canllawiau ar y prif nodweddion a gynhwysir yn Rheoliadau Codi Rhwystrau oddi ar Briffyrdd (Cymru) 2004 (O.S. 2004/317) (Cy.34), ond nid yw'n ceisio darparu esboniad cynhwysfawr o bob darpariaeth. Mater i'r llysoedd yw dehongli'r gyfraith a dylech felly ystyried ceisio cyngor annibynnol.

Mae copïau o'r ffurflenni a'r canllawiau ar gael oddi wrth Cyfoeth Naturiol Cymru a gwefan Llywodraeth Cymru. Dylor ffurflenni a gyflwynir i'r awdurdod lleol gael eu cyflwyno mewn copi caled i'r Prif Weithredwr.

CANLLAWIAU

DEDDF CEFN GWLAD A HAWLIAU TRAMWY 2000 CODI RHWYSTRAU ODDI AR HAWLIAU TRAMWY

Cynnwys

	<u>Tudalen</u>
1. Cyflwyniad.....	1
2. Esboniad o'r darpariaethau	1
3. Pa rwystrau a gynhwysir gan y darpariaethau.....	1
4. Pa rwystrau sydd wedi'u hepgor o'r darpariaethau hyn	1
5. Beth y mae angen i mi ei wneud i gychwyn y broses	2
6. Pan na chaniateir gwneud Gorchmynion.....	3
 Geirfa	 4
 Atodiad A	
Y Broses ar Gyfer Delio â Rhwystrau Honedig i Hawliau Tramwy	5
 Ffurflen 1	
Hysbysiad o Gais i Awdurdod Priffyrdd Lleol i Sicrhau bod Rhwystr Honedig yn cael ei Godi	
 Ffurflen 2	
Hysbysiad bod yr Awdurdod Priffyrdd Lleol wedi Cael Cais i Sicrhau bod Rhwystr yn cael ei Godi	
 Ffurflen 3	
Hysbysiad i berson a Gyflwynodd Hysbysiad i'r Awdurdod Priffyrdd Lleol yn Gofyn bod Rhwystr yn cael ei Godi (Ffurflen 1) bod yr Awdurdod Priffyrdd Lleol wedi cyflwyno Hysbysiad i'r Person(au) a Nodwyd fel y Rhai sy'n Gyfrifol	
 Ffurflen 4	
Hysbysiad o Fwriad i wneud Cais i'r Llys Ynadon am Orchymyn yn ei Gwneud yn Ofynnol i'r Awdurdod Priffyrdd Lleol Sicrhau bod Rhwystr yn cael ei Godi	
 Ffurflen 5	
Hysbysiad o Orchymyn a Wnaed gan Lys Ynadon yn ei Gwneud yn Ofynnol i'r Awdurdod Priffyrdd Lleol Sicrhau bod Rhwystr yn cael ei Godi	

DEDDF CEFN GWLAD A HAWLIAU TRAMWY 2000 RHEOLIADAU CODI RHWYSTRAU ODDI AR BRIFFYRDD (CYMRU) 2004

1. Diben y canllawiau hyn

1.1 Mae'r nodyn cyfarwyddyd hwn yn darparu gwybodaeth am y pwerau sydd ar gael i sicrhau bod rhwystrau yn cael eu codi oddi ar hawliau tramwy cyhoeddus a gynhwysir yn adrannau 130A, 130B, 130C, a 130D o Ddeddf Priffyrdd 1980 (y Ddeddf Priffyrdd). Mewnosodwyd yr adrannau newydd hyn yn Neddf Priffyrdd 1980 gan adran 63 o Ddeddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy 2000 (Deddf CROW).

2. Esboniad o'r darpariaethau

2.1 Mae gan awdurdodau priffyrdd lleol ddyletswydd i atal hawliau tramwy cyhoeddus rhag cael eu cau neu eu rhwystro, cyn belled â phosibl. Os bydd person yn credu bod awdurdod priffyrdd lleol yn methu yn y ddyletswydd hon, mae ganddo hawl i gyflwyno hysbysiad i'r awdurdod priffyrdd lleol i ofyn iddo sicrhau bod y rhwystr yn cael ei godi. Os na fydd yr awdurdod priffyrdd lleol yn gweithredu caiff y person a gyflwynodd yr hysbysiad geisio Gorchymyn Llys Ynadon er mwyn ei gwneud yn ofynnol i'r awdurdod priffyrdd lleol weithredu.

2.2 Yr ydym yn awgrymu y dylai unrhyw un sy'n ceisio codi rhwystr oddi ar hawl dramwy gysylltu â'r awdurdod priffyrdd lleol perthnasol cyn cyflwyno hysbysiad gan ei bod yn bosibl bod yr awdurdod priffyrdd lleol eisoes yn gwybod am y rhwystr a'i fod wrthi'n ceisio cael gwared arno. Yr ydym yn awgrymu felly na ddylid dilyn y gweithdrefnau hyn ond ar ôl i'r holl ddewisiadau eraill gael eu harchwilio.

3. Pa rwystrau a gynhwysir gan y darpariaethau?

3.1 Dylid nodi mai rhai mathau o rwystr yn unig a gynhwysir gan y darpariaethau newydd ac nad ydynt yn gymwys ond i lwybrau troed, llwybrau ceffylau a chilffyrdd cyfyngedig, ac i ffyrdd a ddangosir ar fap diffiniol fel cilffyrdd cyfyngedig neu gilffyrdd sydd ar agor i bob traffig (BOATs).

3.2 Y prif fathau o rwystr a gynhwysir gan y darpariaethau newydd yw:

- Unrhyw strwythurau (ac eithrio'r rhai a restrir yn 4 isod) – er enghraifft muriau, ffensys, perthi, weiren bigog, ffensys trydanol.
- Unrhyw beth a adewir ar hawl dramwy sy'n peri niwsans – er enghraifft dŵr parhaol, sbwriel yn sgil gwaith cloddio, beiciau pedal neu gerbydau sydd wedi cael eu gadael.
- Llystyfiant ar ffurf coeden, gwrych neu brysgwydden neu llystyfiant arall sy'n hongian uwchben priffordd fel eu bod yn peryglu neu'n rhwystro cerbydau, cerddwyr a marchogwyr cyfreithlon rhag mynd heibio.

4. Pa rwystrau sydd wedi'u hepgor o'r darpariaethau hyn?

4.1 Hepgorir y rhwystrau canlynol o'r darpariaethau:

- Adeiladau dros dro neu barhaol.
- Gwaith i adeiladu adeilad.
- Unrhyw strwythur arall (gan gynnwys pabell, carafán, cerbyd neu strwythur dros dro neu strwythur symudol arall) sydd wedi'i gynllunio, ei addasu neu'i ddefnyddio i bobl fyw ynddo.

- Unrhyw ffordd sydd mewn cyflwr dadfeiliedig (h.y. ffordd y gellir gwneud gorchymyn ar ei chyfer o dan Adran 56 o Ddeddf Priffyrdd 1980).
- Pobl sy'n achosi rhwystr.

4.2 Ble mae wyneb y briffordd, gan gynnwys pontydd troed, mewn cyflwr gwael (yn hytrach na bod rhywbeth wedi'i roi yn rhwystr ar y briffordd), gellir ymdrin â hwy o dan y weithdrefn a nodir yn adran 56 o Ddeddf 1980. Ble mae clwyd, camfa neu strwythur tebyg ar draws llwybr troed mewn cyflwr gwael, gellir ymdrin â hwy drwy'r weithdrefn a nodir o dan adran 146 o Ddeddf 1980. Er bod colli rhan o'r ffordd oherwydd erydiad afon a chlogwyn yn rhwystr i'w defnyddio, nid yw'n rhwystr o fewn cwrpas y darpariaethau hyn. Mae rhwystrau a achosir gan aredig neu gnydio hefyd yn cael eu hepgor oherwydd natur dros dro'r gweithgareddau hyn.

5. Beth y mae angen i mi ei wneud i gychwyn y broses?

5.1 Ceir nifer o gamau gweithdrefnol. Ceir fersiwn gryno o'r rhain ar ffurf siart lif yn Atodiad A. Mae'r camau allweddol fel a ganlyn:

Cam 1

5.2 Dechreuir y weithdrefn drwy gyflwyno hysbysiad i'r awdurdod priffyrdd lleol yn gofyn iddo sicrhau bod rhwystr yn cael ei godi oddi ar hawl dramwy. Rhaid defnyddio Ffurflen 1 ac mae'n bwysig darllen y nodiadau esboniadol sydd ynghlwm wrth y ffurflen. Yn ogystal:

- Mae'n bwysig defnyddio un ffurflen ar gyfer pob rhwystr.
- Byddai o gymorth cynnwys rhif ffôn a chyfeiriad e-bost (os yw'n gymwys) ar y Ffurflen gan y bydd hyn yn galluogi'r awdurdod priffyrdd lleol i gysylltu â chi yn brydlon gydag unrhyw ymholiadau.
- Os nad ydych yn siwr pa fath o ffordd sydd o dan sylw (gweler yr eirfa ar ddiwedd y nodyn cyfarwyddyd hwn), yna yn y lle cyntaf, cysylltwch â'r awdurdod priffyrdd lleol neu ysgrifennwch "ddim yn siwr" ar y Ffurflen.
- Rhowch ddisgrifiad byr o'r math o rwystr yr ydych wedi dod ar ei draws ar y ffordd a ble y daethoch o hyd iddo. Byddai cyfeirnod grid map neu rif llwybr o gymorth ond, os nad yw hyn yn hysbys, dylid rhoi cynifer o fanylion â phosibl er mwyn galluogi'r awdurdod priffyrdd lleol i ddynodi'r llwybr a lleoliad y rhwystr.
- Os ydych yn gwybod neu'n meddwl eich bod yn gwybod, pwyl (p'un ai unigolion neu gwmni) sy'n gyfrifol am y rhwystr, rhowch eu henwau a'u cyfeiriadau lle y nodir. Cofiwch nad hwy o bosibl yw'r bobl sy'n gyfrifol ym marn yr awdurdod.

Cam 2

5.3 O fewn un mis calendr ar ôl cael Ffurflen 1, mae'n ofynnol i'r awdurdod priffyrdd lleol gyflwyno dau hysbysiad.

- Cyflwynir y cyntaf o'r hysbysiadau hyn (yn y ffurf sy'n ofynnol gan Ffurflen 2) i bob person a enwir yn Ffurflen 1 ac unrhyw berson arall a allai fod yn gyfrifol ym marn yr awdurdod priffyrdd lleol am y rhwystr honedig ac yn datgan pa gamau, os oes rhai, y mae'r awdurdod priffyrdd lleol yn bwriadu eu cymryd.
- Cyflwynir yr hysbysiad arall (yn y ffurf sy'n ofynnol gan Ffurflen 3) i'r person a gyflwynodd yr hysbysiad gwreiddiol (Ffurflen 1) i'r awdurdod priffyrdd lleol.
- Bydd hyn yn datgan bod Ffurflen 2 wedi'i chyflwyno i'r rhai y mae'r

awdurdod priffyrdd lleol wedi barnu eu bod yn gyfrifol am y rhwystr.

Cam 3

5.4 Os na chodir y rhwystr cewch wneud cais i Lys Ynadon am Orchymyn i'w gwneud yn ofynnol i'r awdurdod priffyrdd lleol gymryd y cyfryw gamau ag a bennir yn y gorchymyn i godi'r rhwystr.

5.5 Ni chaniateir cyflwyno'r hysbysiad (Ffurflen 4) tan ar ôl o leiaf **ddau fis** ar ôl y dyddiad y cyflwynwyd yr hysbysiad gwreiddiol (Ffurflen 1), ond rhaid iddo gael ei gyflwyno o fewn **6 mis** ar ôl cyflwyno'r Ffurflen 1 i'r awdurdod priffyrdd lleol.

5.6 O leiaf **5 niwrnod** cyn gwneud cais i'r Llys, rhaid i chi gyflwyno hysbysiad i'r awdurdod priffyrdd lleol (Ffurflen 4) gan nodi'ch bwriad i gymryd y camau hyn.

Cam 4

5.7 Lle bydd y Llys Ynadon yn gwneud Gorchymyn, rhaid i'r awdurdod priffyrdd lleol arddangos hysbysiad i'r perwyl hwnnw (yn y ffurf sy'n ofynnol gan Ffurflen 5). Rhaid arddangos copïau o'r hysbysiad o boptu i'r rhwystr lle mae'r briffordd (neu'r briffordd gysylltu) yn ymuno â phriffordd sydd wedi'i metelu. Efallai y bydd angen anfon copïau hefyd at y rhai sydd wedi'u nodi fel rhai sydd â buddiant, neu sydd wedi dweud bod ganddynt fuddiant yn y Gorchymyn.

5.8 Caiff Gorchymyn effaith ar yr 22ain ddiwrnod ar ôl y diwrnod y mae'n cael ei wneud gan Lys Ynadon.

Mae'n bwysig bod y ffurflenni yn cael eu llenwi yn gywir, gan y gallai unrhyw ffurflenni anghyflawn neu annarllenadwy fod yn annilys. Byddwch cystal â sicrhau bod yr holl wybodaeth y mae ei hangen (byddai gwybodaeth sy'n cael ei marcio fel gwybodaeth ddewisol o gymorth ond ddim yn hanfodol) yn cael ei darparu.

6. Pan na chaniateir gwneud Gorchymynion

6.1 Mae'r Ddeddf yn cynnwys darpariaethau i alluogi awdurdod priffyrdd lleol i atal Gorchymyn rhag cael ei wneud os gall fodloni'r Llysoedd:

- bod y ffaith bod y ffordd o dan sylw yn hawl dramwy gyhoeddus (fel y'i diffinnir o fewn adran 130A(2) o Ddeddf Priffyrdd 1980) yn destun anghydfod difrifol;
- bod codi'r rhwystr y tu allan i gwmpas eu dyletswydd statudol i atal, cyn belled â phosibl, hawl dramwy rhag cael ei chau neu'i rhwystro;
- bod gan yr awdurdod drefniadau ar waith eisoes i ddelio â'r rhwystr o fewn amser rhesymol.

Ymholiadau

Dylid cyfeirio ymholiadau am y canllawiau hyn at:

Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ

Ffôn: 0300 0604400

E-bost: Cymorth@cymru.gsi.gov.uk

Geirfa

Hawliau Tramwy Cyhoeddus: llwybrau y mae gan aelodau o'r cyhoedd hawl i'w tramwyo. Diffiniwyd y prif hawliau gan y Senedd fel llwybrau troed, llwybrau ceffylau, cilffyrdd cyfyngedig (y cyfeirir atynt ar hyn o bryd fel ffyrdd a ddefnyddir fel llwybrau cyhoeddus) a chilffyrdd sydd ar agor i bob traffig. Mae'r hawliau sy'n perthyn i bob dosbarthiad fel a ganlyn:

- Llwybr troed: (wedi'i farcio fel rheol â saethau melyn) yn cael ei ddefnyddio gan gerddwyr ar droed;
- Llwybr Ceffylau: (wedi'i farcio fel rheol â saethau glas) yn cael ei ddefnyddio gan gerddwyr, beicwyr pedal, a'r rhai sy'n marchogaeth neu'n arwain ceffyl;
- Cilffordd gyfyngedig: (marciau i'w penderfynu) yn cael ei defnyddio gan gerddwyr, beicwyr pedal, y rhai sy'n marchogaeth neu'n arwain ceffyl, a defnyddwyr cerbydau sy'n cael eu gyrru mewn ffordd heb fod yn fecanyddol.
- Cilffordd sydd ar agor i bob traffig: (wedi'i marcio fel rheol â saethau coch) yn cynnwys cerbydau sy'n cael eu gyrru yn fecanyddol ond yn cael ei defnyddio yn bennaf gan gerddwyr, beicwyr pedal, y rhai sy'n marchogaeth neu'n arwain ceffyl, a defnyddwyr cerbydau sy'n cael eu gyrru mewn ffordd heb fod yn fecanyddol.

Mapiau diffiniol: yw mapiau a ddelir gan yr awdurdodau lleol yn nodi safle, hyd a math (llwybrau troed, llwybrau ceffylau, etc.) hawliau tramwy cyhoeddus o fewn eu ffiniau.

Atodiad A - Y broses ar gyfer ymdrin â rhwystrau honedig i hawliau tramwy

